**Dyddiad** 15 Mawrth 2002
**Amser** 10.00 - 13.00
**Lleoliad** Ysgol Dyffryn Aman

**Sarah Phillips (Prif Ferch)**

Es I am gyfweliad yn ddiweddar yn Ysgol Feddygol Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Mae'r ffaith y ces I gynnig cyfweliad dwyiethog yn tystio dwy ffaith beysig. Yn gyntaf, croesawn y newid yn agwedd yr Ysgol Feddygol tuag at rol y Gymraeg yn ddiweddar; ac yn ail, y ffaith bod fy ysgol a pholisi dwyiethrwydd effeithiol cyflawn sy'n rhoi'r cyfle I bob disgybl I fanteisio ar addysg ddwyieithog.

Dyw Ysgol Dyffryn Aman ddim yn Ysgol Ddwyiethog benodedig. Rydyn ni'n ymfalchio, serch hynny, yn y ffaith ein bod yn ysgol ddwyieithog naturiol sy'n rhoi amrywiaeth o ddewisiadau I rieni a disgyblion ynglyn ag addysg ddwyieithog. Ar ddechra gyrfa ysgol, mae 'na dri dewis ar gael I bob disgybl. Yn gyntaf, gall disgyblion ddewis astudio pob pwnc, ag eithrio Gwyddoniaeth a Mathemateg, drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ail, gallant astudio pedwar deg y cant o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a hyd yn oed pan mae'r rhan ysgrifenedig o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a hyd yn oed pan mae'r rhan ysgrifenedig o'r cwricwlwm yn Saesneg, mae'r cyfathrebu yn y dosbath yn ddwyieithog. Yn olaf, mae gweddill y disgyblion yn studio'r Gymraeg o fewn y Cwriwclwm Cenedlaethol ac yn treulio deuddeg y cant o'u hamserlen yn astudio'r Gymraeg fel mamiaith neu fel ail iaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, gall disgyblion astudio Hanes, Daearyddiaeth Addysg Grefyddol, Cerddoriaeth a Drama drwy gyfrwng y Gymraeg I safon arholiadau allanol ac mae llwyddiant mawr ymhlith y disgyblion nynny. Cynigir y pynciau yma hefyd I Safon Uwch Gyfannol a Lefel A.

Ni fedrwn mesur llwyddiant ysgol yn nhermau llwyddiant academaidd a strwythurau cwricwlaidd yn unig. Mae'r Ysgol yn organeb fyw. Caiff Rhys nawr son wrthoch chi am agweddau cymdeithasol a diwlliannol dwyieithrwydd yn Ysgol Dyffryn Aman.

**Rhys Jones (Prif Fachgen)**

Adam Price (Aelod Seneddol), Roy Noble, Yr Athro Derec Llwyd Morgan, Glynog Davies, Dafydd Hywel, Nia Dafydd, Ron Jones, Dai Davies. Ble fydde Sianel S4C heb gyfraniad y cyn-ddisgblion Dyffryn Aman yma? Eleni, daeth un o'n cyn-ddisgyblion enwocaf, sef Dafydd Iwan fel gwr gwadd I'n hannerch yn y Noson Wobrwyo. Mae'r Ysgol yn gorfoleddu yn ei Chymreictod nid yn unig o safbwynt y cwricwlwm, fel y clywsoch gan Sarah, ond hefyd yn ei bywyd cymdeithasol ac all-gyrsiol. Mae Cynhyrchiad yr ysgol yn chwarae rhan bwysig ym mywyd unrhyw ddisgybl sy'n mynd trwy'r Ysgol. Mae disgyblion yn cael y cyfle I gymryd rhan mewn cynhyrchiad Cymraeg a Saesneg o leiaf unwaith yn ystod eu gyrfa Ysgol. Mae'r cynhyrchiad Cymraeg diweddaraf yn cynnwys "Elfis", "Afon Amser",

"Crythor ar y To" ac "Olifar". Mae'r Eisteddfod Ysgol flynyddol yn ddigwyddiad mawr yng nghalendr yr Ysgol a defnyddia myfyrwyr y chweched Dosbarth eu sgiliau arwain a threfnu wrth baratoi'r disgyblion iau ar gyfer cystadlaethau llwyfan ac eraill.

Mae'r gwasanaethau yn y tri man yn yr Ysgol yn gwbl ddwyieithog a bach iawn o ddisgyblion yr Ysgol Iau fydd yn anghofio am gyfres o storiau digri ond effeithiol am gathod a adroddwyd gan Mrs. Einir Jones, - bardd y Goron.

Mae ymweliadau a Llangrannog a Glanllyn yn cael eu trefnu bob blwyddyn ac yn boblogaidd iawn gyda nifer fawr o ddisgyblion. Mae myfyrwyr y Chweched Dosbarth, yn enwedig y rhai sy'n astudio'r Gymraeg neu sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng, yn cael y cyfle I fod yn swyddogion- "swogs" ac yn datblygu perthynas dda a'r disgyblion iau. Mae enw da gan yr Ysgol drwy Gymru gyfan am safonau uchel ein timau Dawnsio Gwerin, ac mae'r grwpiau yma ynghyd a daawnswyr clocsio Dyffryn Aman wedi teithio yn Ewrop ac wedi bod yn fuddugol mewn cystadlethau cenedlaethol a rhyngwladol. Maes arall yn yr ysgol sy hefyd wedi cael llwyddiant yw Siarad cyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg a rhaid rhoi diolch yma I'r Rotari sy wedi noddi'r cystadlaethau Siarad Cyhoeddus a Cherddor Ifanc bob blwyddyn.

O orffen, rydyn ni falch iawn o'n hanes a'n treftadaeth yn Nyffryn Aman a rydym yn ymwybodol iawn o'r rol a chwaraewyd gan yr Ysgol yn y gorffenol a'r her sy'n ei hwynebu yn y dyfodol I ddiogelu'r etifeddiaeth hanesyddol, ddiwylliannol ac iethyddol rydym I gyd mor awyddus I'w chadw.